# Y CABINET DYDD MAWRTH, 8 MEDI 2020

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Cemlyn Rees Williams

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Rhun ap Gareth (Dirprwy Bennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirion) a Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Dyfrig Siencyn, Cyng. Catrin Wager a Iwan Evans (Swyddog Monitro).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

## 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 AWST 2020

Bu i'r Cadeirydd dderbyn gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Awst 2020 fel rhai cywir.

## 6. STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION GWYNEDD

Cyflwynwyd gan Garem Jackson.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo derbyn grant Llywodraeth Cymru er mwyn buddsoddi mewn cyfarpar i ysgolion Gwynedd a chyfarch y gost ‘cynaladwyedd’ o adnewyddu’r cyfarpar mewn blynyddoedd dilynol, gan ofyn am adroddiad pellach a chyflawn ar fabwysiadu’r Strategaeth derfynol gael ei gyflwyno i’r Cabinet cyn gynted a bo modd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi siom yr aelod Cabinet nad oedd yn gallu cyflwyno’r eitem yn y cyfarfod blaenorol gan ei fod yn gais i fuddsoddi yn dyfodol plant a pobl ifanc Gwynedd. Amlygwyd fod y cynllun hwn yn cyd-fynd a’r blaenoriaethau sydd i’w gweld yng Nghynllun y Cyngor.

Pwysleisiwyd fod cyfnod y clo diweddar wedi tynnu sylw at pwysigrwydd y defnydd o gyfarpar digidol o fewn y maes addysg ynghyd ac amlygu annhegwch o ran cyfarpar digidol disgyblion. Mynegwyd fod y cynllun hwn yn un arloesol sydd yn rhoi cyfle i roi y ddarpariaeth ‘orau i holl ddisgyblion Gwynedd.

Ychwanegodd y Pennaeth Addysg yn ystod y cyfnod clo fod ysgolion wedi goresgyn llawer o broblemau ac ei fod wedi amlygu’r angen am strategaeth ddigidol. Nodwyd fod y cyfnod clo wedi dangos y ffordd ymlaen ac ei fod yn strategaeth hir dymor yn rhoi cefnogaeth i blant a pobl ifanc.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Nodwyd fod y cynllun yn un arloesol sydd yn amlygu pwysigrwydd cydraddoldeb i blant sydd heb gyfarpar cyfrifiadurol adref ac sydd wedi gofod defnyddio ffonau symudol neu hen gyfarpar yn ystod y cyfnod clo. Mynegwyd fod hwn yn gais arbennig ymlaen i addysg Gwynedd ac yn falch fod modd gallu buddsoddi i roi arfau effeithiol i athrawon gael cefnogi’r disgyblion.
- Holwyd os oes asesiad cydraddoldeb wedi ei wneud ar gyfer yr adroddiad er mwyn sicrhau fod plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau gweld er enghraifft yn cael y cyfarpar maent eu hangen. Nodwyd nad oedd asesiad wedi ei wneud gyda’r adroddiad hwn gan nad oedem yn mabwysiadu’r strategaeth heddiw ond yn hytrach yn caniatáu i ni osod archeb ond y bydd un cael ei wneud pan fydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno ar gyfer ei mabwysiadu’n derfynol. Pwysleisiwyd y bydd ymgynghoriadau yn cael ei wneud gyda’r ysgolion i sicrhau fod y cyfarpar yn diwallu anghenion pob plentyn.
- Nodwyd fod y buddsoddiad yn un aruthrol a bod angen sicrhau cynaladwyedd i’r cynllun. Amlygwyd angen am ymrwymiad ariannol gan ysgolion.
- Dangoswyd cefnogaeth i’r cynllun a'i fod yn gam yn y frwydr yn erbyn tlodi digidol sydd i’w gweld ar draws y sir.
- Mynegwyd fod y chwe mis diwethaf wedi bod yn anodd ond nodwyd ei bod yn dda gweld rhywbeth positif a rhoi cyfle i blant y sir.
- Nodwyd fod angen i’r penderfyniad angen gweithredu yn syth i sicrhau ei fod yn cadw at amserlen.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.10 y.h. a daeth i ben am 1.40 y.h.

**CADEIRYDD**